**Grwp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol**
**Economy, Skills and Natural Resources Group**

**Cyfarwyddwr Cyffredinol - Director General**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

2 Chwefror 2018

Annwyl Gadeirydd

**Y DIWEDDARAF AR ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS AR GAFFAEL MAES AWYR CAERDYDD GAN LYWODRAETH CYMRU**

Rwy'n ymateb i'ch llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth dyddiedig 5 Rhagfyr 2017 gan mai fi yw'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol. Mae'n ddrwg gen i am yr oedi cyn ymateb.

Cafodd cyfarwyddwr anweithredol annibynnol newydd Bwrdd HoldCo ei benodi drwy'r Broses Penodiadau Cyhoeddus. Gall y broses hon gymryd rhwng chwech a naw mis i'w chwblhau. Yn yr achos hwn roedd bach o oedi yn y broses o gymeradwyo dyddiadau cyfleus i'r Panel Penodi ar gyfer cyfweld yr holl ymgeiswyr.

Rwy'n falch o'ch hysbysu bod Stuart Castledine wedi derbyn y swydd. Mae Stuart yn Gyfrifydd Siartredig ac wedi dilyn gyrfa yn y sector gwasanaethau ariannol mewn swyddogaethau arbenigol a chyffredinol. Roedd yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol Tesco, pan fu yn arwain ar arallgyfeirio'r cwmni i wasanaethau ariannol manwerthu, Roedd ei yrfa hefyd yn golygu gweithio yn Kenya ble y daeth yn Rheolwr-gyfarwyddwr The Housing Finance Company of Kenya ac yn Llundain, ble y bu yn cynghori'r Board of Post Office Ltd ar arallgyfeirio strategol, gan redeg cyn is-gwmni gwasanaethau ariannol Help the Aged, sef Intune.

Mae ei swyddogaethau blaenorol o fewn y gwasanaeth cyhoeddus wedi cynnwys bod yn gyfarwyddwr anweithredol Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ac Aelod o Fwrdd Taliadau Llywodraeth Cymru.

Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn/Tel: 02920 82 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@gov.wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Stuart yw cyfarwyddwr presennol CityWest Homes Ltd, ef yw Cyfrifydd Anrhydeddus Elusen Ysbyty Plant Noah's Ark ac mae hefyd yn aelod o Fwrdd Strategaeth Cymru ICAEW.

Bydd y newyddion diweddaraf ar weithredu argymhellion 2, 7, 9 a 10 yn cael eu darparu ym mis Tachwedd 2018 yn ôl y cais.

Dymuniadau gorau.

Yn gywir

Andrew Slade
**Cyfarwyddwr Cyffredinol**
**Grŵp yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol**

**ANDREW SLADE**